



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

YSTADEGAU

# Arolwg Cenedlaethol Cymru data cynnar : Ebrill i Fehefin 2021

Mae canlyniadau cyntaf Arolwg Cenedlaethol 2021-22 yn cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill i fis Mehefin 2021 ac yn cynnwys dros 3,000 o bobl.

Cyhoeddwyd gyntaf: 14 Hydref 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 14 Hydref 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebryll-i-fehefin-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

## Cyflwyniad

---

## Gwasanaethau Meddygon Teulu a gwasanaethau ysbyty

---

## Yr ardal a'r amgylchedd lleol

---

## Ysgolion Cynradd

---

## Ysgolion Uwchradd

---

## Cyflogaeth a hyfforddiant

---

## Llygredd sŵn

---

## Newid hinsawdd

---

## Presenoldeb a chyfranogiad yn y celfyddydau

---

## Chwaraeon a gweithgarwch corfforol

---

## Anifeiliaid anwes

---

## Gwybodaeth am ansawdd

---

## Manylion cyswllt

---

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno rhai o'r prif ganlyniadau o fis Ebrill i fis Mehefin

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.


Evch i <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebryll-i-fehefin-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

2021. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yr Arolwg Cenedlaethol wedi cynnwys dros 3,000 o bobl 16 oed a throsodd ac wedi ymdrin ag ystod eang o bynciau. Caiff canlyniadau'r arolwg ar gyfer y flwyddyn lawn (Ebrill 2021 i Fawrth 2022) eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022.

Caiff rhai canlyniadau eu cynnwys o flynyddoedd blaenorol, er mwyn rhoi cyd-destun. Fodd bynnag, gan gofio bod yr Arolwg Cenedlaethol wedi newid o fod yn arolwg wyneb yn wyneb i fod yn arolwg ffôn ym mis Ebrill 2020, dylid cymryd gofal wrth gymharu'n uniongyrchol gyda chanlyniadau cyn y dyddiad hwn.

## Gwasanaethau Meddygon Teulu a gwasanaethau ysbyty



o bobl wedi cael apwyntiad meddyg teulu yn y 12 mis diwethaf.

Mae nifer y bobl sydd wedi cael apwyntiad meddyg teulu wedi gostwng o 64% yn 2020-21 a 76% yn 2019-20. O'r rheini a gafodd eu gweld gan feddyg teulu yn y 12 mis diwethaf: ymgynghorodd 65% â nhw unwaith neu ddwy, 24% dair i bum gwaith a 11% chwe neu fwy o weithiau. Cafodd 51% o apwyntiadau eu cynnal dros y ffôn, o gymharu â 48% wyneb yn wyneb a 1% dros alwad fideo. O'r rheini a drefnodd eu hapwyntiadau eu hunain, roedd 73% yn credu ei bod yn hawdd gwneud apwyntiad ar amser cyfleus, ac roedd 88% yn fodlon â'r gofal a dderbyniwyd.

Mae 32% o bobl wedi cael apwyntiad ysbyty yn y 12 mis diwethaf, yn debyg i'r ffigur o 34% cyn y pandemig yn 2019-20. O'r bobl a gafodd apwyntiad yn y flwyddyn ddiwethaf, aeth 71% unwaith neu ddwy, 18% dair i bum gwaith a 11% chwe neu fwy o weithiau. Roedd 87% o apwyntiadau yn rhai wyneb yn wyneb, 11% yn rhai dros y ffôn a 2% dros alwad fideo.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebrril-i-fehefin-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae 96% o bobl yn dweud eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch, ac mae 93% yn fodlon â'r gofal a gawsant.

## Yr ardal a'r amgylchedd lleol

Mae 35% o bobl yn cytuno bod ganddynt gyfleoedd i gyfrannu at wneud penderfyniadau am sut y caiff eu gwasanaethau lleol eu rhedeg, o gymharu â 17% yn 2019-20. Mae 30% o bobl yn cytuno eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, o gymharu â 19% yn 2018-19. Mae'r ddau ffigur hwn yn dangos cynnydd amlwg a gall fod yn adlewyrchiad o newid yn ystod y pandemig, felly byddwn yn monitro hyn wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.


Mae'r rheini sy'n fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau (34%) na phobl sy'n anfodlon â'r ardal leol (mae 21% o'r bobl hyn yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebrill-i-fehefin-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Siart 1: Problemau gydag ansawdd yr amgylchedd lleol, Ebrill i Fehefin 2021



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru


Mae 44% o bobl yn credu bod taflu sbwriel yn broblem (mawr neu gymedrol) yn eu hardal leol ac mae 19% o bobl yn meddwl bod cŵn yn baeddu yn broblem fawr (Siart 1). Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol yn fwy tebygol o feddwl bod graffiti neu fandaliaeth yn broblem (17%) na'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig (6%). Mae tipio anghyfreithlon yn broblem mewn ardaloedd trefol a gwledig.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebriill-i-fehefin-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Ysgolion Cynradd



o rieni yn dweud bod ysgol gynradd eu plentyn yn dod o hyd i ffyrdd o helpu gyda dysgu gartref.

Mae 39% o rieni yn dweud eu bod yn helpu eu plentyn bob dydd gyda llythrennau, darllen neu ysgrifennu, ac mae 27% o rieni yn dweud eu bod yn helpu gyda mathemateg bob dydd. Mae hyn wedi gostwng ers Ionawr-Mawrth 2021 pan fu ysgolion ar gau oherwydd pandemig y coronafeirws, a helpodd 49% o rieni gyda llythrennau a 48% gyda mathemateg yn ystod y cyfnod hwn.

Y ffordd fwyaf cyffredin o fynd i'r ysgol yw mewn car (48%); mae dulliau eraill yn cynnwys cerdded gydag oedolyn (39%) a phlant yn cerdded ar eu pennau eu hunain/gyda phlant eraill (11%). Mae'n bosibl bod newidiadau tymhorol yn effeithio ar deithio llesol i'r ysgol, a bydd darlun llawn ar gael pan gaiff y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn lawn eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022.

# Ysgolion Uwchradd

Mae 78% o rieni sydd â phlentyn oed ysgol uwchradd yn dweud bod ysgol y plentyn yn dod o hyd i ffyrdd o gefnogi plant gyda dysgu gartref.

Mae 65% o rieni sydd â phlentyn oed ysgol uwchradd yn dweud eu bod yn helpu eu plentyn gyda'i waith ysgol o leiaf unwaith yr wythnos.

Mae disgyblion ysgol uwchradd yr un mod debygol o fynd i'r ysgol drwy gerdded ar eu pennau eu hunain neu gyda phlant eraill (33%) neu yn y car (32%) neu ar fws yr ysgol (32%).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebriill-i-fehefin-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cyflogaeth a hyfforddiant

Mae 56% o oedolion 16 i 64 oed yn dweud eu bod naill ai'n gyflogai neu'n hunangyflogedig. Mae hyn yn cynnwys y 1% o oedolion 16 i 64 oed a ddywedodd eu bod wedi bod ar ffyrlo oherwydd y pandemig. Mae 3% o oedolion 16 i 64 oed yn ddi-waith.

O'r rheini nad ydynt mewn cyflogaeth nac yn hyfforddi ar hyn o bryd, ond y byddai'n hoffi cael swydd, collodd 14% eu swyddi blaenorol yn y flwyddyn ddiwethaf, a cholodd 77% eu swyddi dros flwyddyn yn ôl.

Mae 29% o bobl wedi bod ar gwrs addysg neu hyfforddiant ffurfiol, sef cyfran debyg i honno yn 2018-19. Pobl 16-44 oed sydd fwyaf tebygol o fynd ar gwrs addysg neu hyfforddiant ffurfiol (45%). Aeth 32% o'r rheini mewn ardal drefol ar gwrs hyfforddi o gymharu â 25% o'r rheini mewn ardaloedd gwledig.

## Llygredd sŵn

Mae 25% o bobl yn dweud eu bod yn cael eu poeni'n rheolaidd gan sŵn yn dod o'r tu allan i'w cartref, sef cyfran debyg i honno yn 2017-18. Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol yn fwy tebygol o gael eu poeni gan sŵn (28%) na'r rheini mewn ardaloedd gwledig (21%).

Mae 22% o berchen-feddianwyr yn cael eu poeni gan sŵn, o gymharu â 36% mewn tai cymdeithasol a 34% mewn cartrefi wedi'u rhentu'n breifat. Eto, mae'r canlyniadau hyn yn debyg i'r rheini yn 2017-18.


Mae llai o bobl yn dweud eu bod yn cael eu poeni gan sŵn yn dod o du fewn i gartrefi eu cymdogion na phan ofynnwyd y cwestiwn hwn ddiwethaf yn 2017-18 (Siart 2). Fodd bynnag, mae mwy o bobl nawr yn dweud bod rhesymau eraill dros lygredd sŵn yn broblem (er enghraifft: grwpiau o bobl ifanc yn eu harddegau, cŵn yn cyfarth, a gwaith adeiladu).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Enwch i <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebriill-i-fehefin-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Siart 2: Mathau o lygredd sŵn allanol a brofwyd yn y cartref, 2017-18 ac Ebrill i Fehefin 2021



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae pobl 16 i 44 oed yn fwy tebygol na'r rheini 65 oed a throsodd i gael eu poeni gan sŵn y tu fewn i'w cartrefi sy'n dod o du fewn i gartrefi eu cymdogion (29% o gymharu â 14%) ac o gymdogion sydd y tu allan (54% o gymharu â 29%). Fodd bynnag, mae pobl 16 i 44 oed yn llai tebygol o gael eu poeni gan sŵn traffig, busnesau neu ffatrïoedd (36%) na'r rheini sy'n 65 oed ac yn hŷn (50%).

## Newid hinsawdd

Mae 95% o bobl yn credu bod hinsawdd y byd yn newid. O'r rhain, mae 69% yn credu ei fod bendant yn newid a 26% yn credu ei fod yn newid yn ôl pob tebyg. Pan ofynnwyd pa mor bryderus oedd pobl am newid hinsawdd, dywedodd 34% o bobl eu bod yn bryderus iawn, 9% nad ydynt yn bryderus o gwbl, a dywedodd y gweddill eu bod yn weddol neu'n eithaf pryderus.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.


Ewch i <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebriill-i-fehefin-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



Mae 80% o bobl yn dweud bod gan y llywodraeth lawer o gyfrifoldeb wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd, mae 71% yn credu bod llawer o'r cyfrifoldeb ar ysgwyddau busnesau, ac mae 62% yn credu bod gan y cyhoedd lawer o gyfrifoldeb.

### Siart 3: Barn ar resymau dros newid hinsawdd, 2016-17, 2018-19 ac Ebrill i Fehefin 2021



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae Siart 3 yn dangos bod barn ar y rhesymau dros newid hinsawdd wedi newid dros amser, gyda mwy o bobl nawr yn dweud ei fod yn cael ei achosi'n gyfan gwbl, neu'n bennaf gan weithgarwch dynol: yn 2016-17 roedd 38% o bobl yn credu mai gweithgarwch dynol oedd yn ei achosi, o gymharu â 53% yn y canlyniadau diweddaraf hyn.

## Presenoldeb a chyfranogiad yn y celfyddydau

Mae effaith cyfnodau clo y coronafeirws yn arbennig o amlwg yn y canlyniadau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebriill-i-fehefin-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ar bresenoldeb a chyfranogiad yn y celfyddydau a digwyddiadau diwylliannol. Dim ond 17% o bobl aeth i ddigwyddiad celfyddydol yn y 12 mis diwethaf, o gymharu â 73% yn 2018-19. Yn yr un modd, aeth 6% o bobl i weld ffilm yn y sinema o gymharu â 57% yn 2018-19.

Roedd y niferoedd a gymerodd ran mewn digwyddiadau a gweithgareddau celfyddydol hefyd lawer yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol. Byddwn yn adrodd ar hyn eto pan fydd y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn 2020-21 lawn ar gael.

Mae 82% o bobl yn dweud eu bod yn cytuno y dylai cyllid cyhoeddus fod ar gael i brosiectau celfyddydol a diwylliannol, ac mae 88% o bobl yn cytuno bod y celfyddydau a'r diwylliant yn gwneud Cymru yn lle gwell i fyw ynddo. Mae'r canlyniadau hyn yn debyg i ganlyniadau 2018-19.

## Chwaraeon a gweithgarwch corfforol



o bobl ran mewn rhyw weithgarwch chwaraeon neu weithgarwch corfforol yn y 4 wythnos ddiwethaf.

Yn yr un modd â phresenoldeb a chyfranogiad yn y celfyddydau, mae'r pandemig wedi cael effaith amlwg ar y canlyniadau ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, roedd modd cymharu'r canlyniadau gyda blynyddoedd blaenorol ar gyfer dau weithgaredd nad oedd wedi'u cyfyngu: roedd cerdded mwy na dwy filltir (49%) a loncian neu redeg (14%) yn dal i fod yn weithgareddau cyffredin.

Gofynnwyd hefyd i bobl a oedd unrhyw chwaraeon neu weithgareddau yr hoffent eu gwneud, neu wneud mwy ohonynt. Mae 33% yn dweud eu bod am wneud

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebriill-i-fehefin-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

mwy o chwaraeon neu weithgarwch corfforol yn gyffredinol. Yn arbennig, mae 22% am wneud mwy o weithgarwch ffitrwydd (megis dosbarthiadau ffitrwydd, rhedeg/loncian, beicio neu nofio) ac mae 12% am wneud mwy o chwaraeon neu gemau (megis pêl-droed, rygbi, tenis bwrdd neu golff). Byddai 5% yn hoffi gwneud mwy o weithgareddau yn yr awyr agored fel cerdded, ceufadu neu hwylio.

## Anifeiliaid anwes

Mae gan 52% o aelwydydd anifail anwes. Cŵn (33% o aelwydydd) a chathod (21% o aelwydydd) yw'r mathau mwyaf cyffredin o anifeiliaid anwes. Mae gan 5% o aelwydydd anifail bach blewog (bochdew, mochyn cwta, llygoden etc.) ac mae gan 2% aderyn. Mae'r canlyniadau hyn yn debyg i pan gafodd y cwestiynau eu gofyn ddiwethaf yn 2014-15.

Os oedd pobl wedi cael yr anifail anwes yn y pum mlynedd ddiwethaf, gofynnwyd iddynt o ble y cawsant ef. Cafodd cŵn eu prynu gan fwyaf gan werthwr preifat (28%), bridwr trwyddedig (23%) neu gan deulu a ffrindiau (23%). Yn 2014-15, prynodd 38% o bobl eu ci gan werthwr preifat. Roedd pobl yn cael cathod gan deulu a ffrindiau gan fwyaf (35%) neu ganolfan achub (24%).

Mae adroddiadau yn y cyfryngau'n awgrymu bod cynnydd wedi bod yn nifer y bobl sy'n berchen ar anifail anwes yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, nid yw'n glir o ganlyniadau'r arolwg bod hyn wedi digwydd yng Nghymru. O'r aelwydydd a oedd wedi cael ci yn y pum mlynedd ddiwethaf, dangosodd yr arolwg bod 21% wedi cael eu ci yn y flwyddyn ddiwethaf. O'r aelwydydd a oedd wedi cael cath yn y pum mlynedd ddiwethaf, roedd 25% wedi cael eu cath yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mae gan 59% o gathod a chŵn yswiriant, ac mae gan 91% ficrosglodyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebriill-i-fehefin-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Gwybodaeth am ansawdd

Cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn gyda hapsampl o bobl 16 oed a throsodd. Mae siartiau manwl a thablau canlyniadau ar gael yn ein [dangosydd canlyniadau](#) rhyngweithiol. I gael gwybodaeth ynglŷn â chasglu'r data a'r fethodoleg, gweler yr [adroddiad ansawdd](#).

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Golyga statws Ystadegau Gwladol fod yr ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon hynny â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Cadarnhawyd y byddai'r ystadegau hyn yn parhau i gael eu dynodi fel Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2020 yn dilyn asesiad llawn yn erbyn y Cod Ymarfer ([llythyr cadarnhau](#)). Y tro diwethaf i'r ystadegau hyn gael eu cynnal oedd asesiad llawn ([adroddiad llawn](#)) yn erbyn y Cod Ymarfer yn 2013.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebrril-i-fehefin-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- darparu dadansoddiadau manylach yn y **dangosydd canlyniadau** a'i gwneud yn haws i ddefnyddwyr gymharu canlyniadau ar draws blynyddoedd
- diweddarau pynciau'r arolwg yn flynyddol i sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion polisi sy'n newid
- gwneud dadansoddiad atchweliad yn rhan safonol o'n hallbynnau i helpu defnyddwyr i ddeall cyfraniad ffactorau penodol at ganlyniadau diddordeb

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym mis Mawrth 2016. Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth ar gyfer **15 o'r 46 dangosydd**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebriil-i-fehefin-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Manylion cyswilt

Richard Murphy

Linell Ymholiadau Cyffredinol

Ffôn: 0300 025 5050

E-bost: [arolygon@llyw.cymru](mailto:arolygon@llyw.cymru)

Cyfryngau: 0300 025 8099



SB 32/2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebrill-i-fehefin-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Arolwg Cenedlaethol Cymru data cynnar : Ebrill i Fehefin 2021](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebrill-i-fehefin-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebrill-i-fehefin-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).